Papur y Bwrdd

3ydd Ebrill 2014

Teitl y Papur:	**Diweddariad Rheoli Adnoddau Naturiol**
Cyfeirnod y Papur:	NRW B O 23.14
Noddwyd y Papur gan: **Awdur y Papur yw:**	Ceri Davies Joanne Sherwood, Keith Davies a Russell Elliott

Pwrpas y Papur:	Trafodaeth Gwahoddir y Bwrdd i:
Argymhelliad:	• Ystyried cwmpas a strwythur Datganiad Sefyllfa Interim Cyfoeth Naturiol Cymru ar Reoli Adnoddau Naturiol • Ystyried a rhoi sylwadau ar faterion allweddol i Gyfoeth Naturiol Cymru fel y nodwyd yn y Datganiad Sefyllfa Interim drafft
Angen Penderfyniad:	Gofynnir i'r Bwrdd ardystio cynhyrchu'r Datganiad Sefyllfa Interim, drwy ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a thrwy wybodaeth am y materion allweddol uchod.

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd y Papur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd yn arwain yn y pen draw at Fil Amgylchedd a fydd yn gosod agenda newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae ein hymateb i'r Papur Gwyn yn tynnu sylw at y buddion i'r amgylchedd, yn ogystal ag i'r economi a'r gymdeithas, o'r gwelliannau arfaethedig yn y fframwaith cyfreithiol. **Effaith ar yr Economi**: Mae ein sylwadau ar y Papur Gwyn yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd arfaethedig i ddefnyddio adnoddau naturiol yng Nghymru er mwyn rhoi budd i'r economi yn ogystal â'r cymunedau a'r amgylchedd. **Effaith ar y Gymuned**:

	Mae ein sylwadau ar y Papur Gwyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd arfaethedig i ddefnyddio adnoddau naturiol yng Nghymru i roi budd i gymunedau yn ogystal â'r economi a'r amgylchedd. **Effaith ar Wybodaeth**: Bydd gan rai o'r cynigion yn y Papur Gwyn oblygiadau sylweddol ar gyfer y ffyrdd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (ac eraill) yn casglu, trefnu a rhannu data, tystiolaeth a gwybodaeth. Dylai hyn arwain at sail tystiolaeth a dealltwriaeth gyffredin y gall gwneuthurwyr penderfyniadau eu defnyddio i sicrhau bod defnyddio adnoddau naturiol yng Nghymru o fudd i'r amgylchedd, yr economi a'r cymunedau.

Pwnc

1. Roedd y Papur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd yn cynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd a fyddai, petai'n cael ei chyhoeddi, yn gwella rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru a swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn arbennig, mae'r dull arfaethedig newydd tuag at reoli adnoddau naturiol yn integredig yn amlinellu heriau a chyfleoedd allweddol i drefniadaeth a rheolaeth gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru a chyflawni drwy lywodraethu a chyflawni gan y gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Mae gofyn am Ddatganiad Sefyllfa Interim gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar Reoli Adnoddau Naturiol ar gyfer ei gyfathrebu i'r staff a rhanddeiliaid allanol wrth aros am gadarnhad o bolisi terfynol Llywodraeth Cymru a chynigion deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig.

Crynodeb a Chefndir

2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn *Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy* ar 23 Medi 2013. Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd i Gymru. Roedd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Papur Gwyn yn croesawu dull cyffredinol tuag at reoli adnoddau naturiol yn integredig wrth nodi materion allweddol i'w datrys wrth aros am gadarnhad o bolisi a sefyllfa ddeddfwriaethol derfynol. Mae trafodaethau yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r polisi a'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.

3. Datganodd Cyfoeth Naturiol Cymru safbwyntiau ynglŷn â'r cydberthynas rhwng Bil yr Amgylchedd a'r Bil Drafft Cynllunio (Cymru) yn ein cyflwyniad i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru *Cynllunio Cadarnhaol - cynigion i ddiwygio'r System Gynllunio yng Nghymru*. Yn benodol, gwnaethom amlygu'r pwysigrwydd o ddiwygio adran 60 o Fil Drafft Cynllunio (Cymru) er mwyn gofyn i'r Cynlluniau Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg roi sylw i bolisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a'r dull seiliedig ar ardal tuag at reoli adnoddau naturiol yn integredig.

4. Yn dilyn hyn, rydym wedi trafod gydag Is-grŵp Amgylchedd y Bwrdd y trefniadau llywodraethu i symud ymlaen gyda rheoli adnoddau naturiol yn integredig o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cynigion amlinellol ar gyfer Datganiad Sefyllfa Interim ar Reoli Adnoddau Naturiol.

5. Mae Dull Ecosystemau a Bwrdd Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau strwythur llywodraethol a Dogfen Cychwyn Rhaglen sy'n amlinellu amcanion y rhaglen, yr hyn a ellir ei gyflawni, ac wedi sefydlu ardaloedd treialu i brofi a dysgu o'r defnydd o reoli adnoddau naturiol yn integredig. Rydym yn gweithio gydag amrediad o bartneriaid allanol er mwyn archwilio cyfleoedd i dreialu'r dull newydd, yn cynnwys rheoli'r broses gynllunio o dirweddau gwarchodedig yng Nghymru.

6. Mae angen Datganiad Sefyllfa Interim er mwyn:
   - Darparu dealltwriaeth gyffredin o reoli adnoddau naturiol yn integredig ymysg staff Cyfoeth Naturiol Cymru;
   - Egluro'r cydberthynas rhwng rheoli adnoddau naturiol yn integredig, y dull ecosystemau, isadeiledd gwyrdd a chynllunio gofodol a chynllunio seiliedig ar leoedd;
   - Egluro sut y gall reoli adnoddau naturiol gyflawni buddion i'r amgylchedd, yr economi a'r gymdeithas drwy integreiddio yn Cyfoeth Naturiol Cymru a chyda llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus ehangach a mecanweithiau cyflawni;
   - Amlinellu sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli'r datblygiad, treialu a gweithredu'r dull newydd o reoli adnoddau naturiol yn integredig; a
   - Darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ymgynghorol Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill.

Y Camau Nesaf

7. Bydd safbwyntiau'r Bwrdd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Datganiad Sefyllfa Interim.

8. Bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein Datganiad Sefyllfa Interim yn alinio gyda'u sefyllfa polisi a deddfwriaethol sy'n dod i'r amlwg.

Risgiau

9. Bydd y Datganiad Sefyllfa Interim yn helpu i reoli ac ymdrin â'r risgiau a nodwyd ym Mhapur y Bwrdd ar 17 Rhagfyr 2013, yn amlinellu ein hymateb drafft i ymgynghoriad ar Bapur Gwyn yr Amgylchedd, sef:

   `Mae risg y bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ysgwyddo dyletswyddau newydd sylweddol heb dderbyn yr adnoddau ariannol i'w gwneud. Mae'r risg hwn yn uchel yn y cyfnod datblygu a gweithredu cynnar, yn arbennig felly lle gall fod angen rhedeg y gofynion cyfreithiol "newydd" a "hen" yn gyfochrog. Er mwyn lliniaru'r effaith, byddwn yn asesu effaith y dyletswyddau hyn yn nhermau gofynion adnoddau. Os na allwn ailddyrannu adnoddau digonol yn Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y mater, gan geisio cyllid ychwanegol a / neu gytuno pa waith sydd yn dod i ben a chanlyniadau hyn.' Yn ogystal, rydym wedi tynnu sylw at y risg hwn yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

10. Byddai angen ffyrdd newydd o weithio ar rai o'r cynigion ac ar yr un pryd bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd drwy newidiadau strwythurol pellach yn ogystal â chyflawni gofynion beunyddiol. Bydd hyn yn cynrychioli newid sylweddol i staff a bydd angen iddynt ddatblygu sgiliau a galluoedd newydd o weithio mewn ffordd wahanol a mwy integredig. Byddwn yn ymdrin â'r risg hwn drwy'r cynllun gweithlu a thrwy sefydlu strwythur llywodraethu priodol yn Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyflawni'r rhaglen drawsnewid hon.

11. Mae risg na fydd canlyniadau cynigion Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn cael eu cyflawni'n llawn er gwaethaf ymdrech Cyfoeth Naturiol Cymru: byddai hyn yn effeithio ar ein henw da. Mae hyn yn fater arbennig lle nad yw cyrff eraill, a all gyflawni'r canlyniadau hyn drwy eu gwaith, yn ymrwymo i wneud hynny. Rydym wedi tynnu sylw at y risg hwn yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, a byddwn yn ceisio gwneud cysylltiad drwy ein mewnbwn i newid deddfwriaethol cysylltiedig, er enghraifft, cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil Diwygio Cynllunio.

12. Byddwn yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru aliniad rhaglenni gwaith ac adnoddau sydd wedi cael eu hymrwymo i fwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol integredig. Mae'r dewisiadau yn cynnwys mabwysiadu dull cydgynhyrchu at ddylunio'r broses ar gyfer y dull arfaethedig sy'n seiliedig ar ardal, gyda golwg ar waredu effeithiau adnoddau yn y tymor hirach a'r risgiau yn y cyfnod dylunio.

Goblygiadau Ariannol

13. Ni fydd paratoi a chyhoeddi'r Datganiad Sefyllfa Interim yn cael goblygiadau ariannol uniongyrchol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd ei argaeledd yn helpu i reoli goblygiadau ariannol llawer o'r cynigion yn y Papur Gwyn, sy'n sylweddol i Cyfoeth Naturiol Cymru, ond yn anodd eu mesur yn y cyfnod hwn a than y bydd manylion y cynigion wedi'u datblygu.

Cyfathrebu

14. Bydd y Datganiad Sefyllfa Interim yn cael ei gyfathrebu i staff Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar ein gwefan, yn unol â'r ymarfer safonol.

15. Byddwn yn parhau i roi mewnbwn i waith Llywodraeth Cymru ar y cynigion polisi a deddfwriaethol manwl a chyfrannu drwy aelodaeth, er enghraifft, o Grŵp Cyfeirio Rheoli Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru a Bwrdd Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rydym wedi cael ein gwahodd i eistedd ar Fwrdd Prosiect Bil yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru.

16. Byddwn yn parhau i friffio rhanddeiliaid fel rhan o gyfarfodydd cyswllt arferol parhaus.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

17. Ni wnaed Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb oherwydd ystyrir nad yw'r papur hwn yn codi unrhyw faterion ynghylch cydraddoldeb.

Atodiad

Atodiad 1: Testun drafft ar gyfer Datganiad Sefyllfa Interim Cyfoeth Naturiol Cymru ar Reoli Adnoddau Naturiol.